



## Swyddfa dros Reoli Niwclear

# Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer safle trwyddedig Trawsfynydd

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf – 30 Medi 2015

### Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i drefnu bod gwybodaeth ynghylch gweithgareddau arolygu a rheoleiddio yn gysylltiedig â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau'n chwarterol i aelodau ar gyfer Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG) Trawsfynydd a maent ar gael hefyd ar y wefan ONR (<http://www.onr.org.uk/llic/>).

Fel arfer mae arolygwyr safle o ONR yn mynychu cyfarfodydd SSG Trawsfynydd a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw unigolyn sy'n dymuno ymholi am faterion a gwmpasir gan yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR.

Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Trawsfynydd Chwarter 3  
Cyf, TRIM: 2015/404610

## TABL CYNNWYS

1	AROLYGIADAU.....	3
2	MATERION RHEOLAIDD.....	3
3	MATERION AFREOLAIDD.....	3
4	GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIO.....	4
5	NEWYDDION GAN ONR.....	4
6	CYSYLLTIADAU.....	4

## 1 AROLYGIADAU

### 1.1 Dyddiadau arolygu

Fe wnaeth yr arolygwr ONR gynnal arolygiad ar y dyddiad dilynol yn ystod y chwarter:

- 29 Medi 2015

## 2 MATERION RHEOLAIDD

### 2.1 Arolygiadau

Ymgymerir ag arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffuriad ag:

- Yr amodau a gysylltir gan ONR â'r drwydded safle niwclear a roddwyd o dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (HSWA74); a
- Rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 (IRR99), y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99) a Rheoliadau Diogelwch y Diwydiannau Niwclear 2003 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r arolygiadau'n golygu monitro gweithgareddau'r trwyddedai ar y safle mewn cysylltiad â digwyddiadau, gweithrediadau, cynhaliaeth, prosiectau, addasiadau, newidiadau o ran achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol o dan yr amodau a gysylltir â'r drwydded er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn ôl y gyfraith. Mae arolygiadau'n ceisio barnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'r modd y'i gweithredir fel ei gilydd.

Yn y cyfnod hwn, fe wnaeth arolygiadau rheolaidd ac adweithiol heb eu cynllunio yn Nhrawsfynydd gwmpasu'r dilynol:

- Trefniadau argyfwng (LC 11)

Mae arolygiadau system yn canolbwyntio ar y systemau a strwythurau diogelwch arwyddocaol sy'n deillio o achosion diogelwch Trawsfynydd. Ni wnaeth ONR ymgymryd ag arolygiad system yn ystod y chwarter hwn.

Roedd yr arolygiad o agweddau ar drefniadau argyfwng y safle'n cefnogi asesiad a chymeradwyaeth barhaus o fersiwn adolygedig o gynllun argyfwng y safle. Pwrpas yr adolygiad o gynllun y safle yw cael gwared ar gyfeiriadau at y cynllun argyfwng oddi ar y safle oedd yn bodoli o'r blaen nad oes ei angen bellach o dan Rheoliadau Ïoneiddio (Parodwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001.

### 2.2 Gwaith arall

Dim byd.

## 3 MATERION AFREOLAIDD

Mae'n ofynnol i drwyddedeion gael trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau afreolaidd. Mae arolygwyr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, gan gynnwys camau a gymerir i weithredu unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Nid oedd unrhyw faterion na digwyddiadau arwyddocaol o'r fath yn ystod y cyfnod.

## 4 GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIO

Gall ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau cydymffurfiad â gofynion rheoleiddiol. O dan amodau trwydded y safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddiol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod rhyw fath o gamau gweithredu'n cael eu cymryd; fel arfer gelwir y rhain yn gasgliadol yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant ymddangos ar ffurfiau eraill. Ar ben hynny, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi er mwyn sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Mae adroddiadau'n manylu ar benderfyniadau rheoleiddiol ar gael ar y wefan ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

- Ni chyhoeddwyd LIs na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod.

## 5 NEWYDDION GAN ONR

### Y Prif Arolygwr Niwclear yn Ymdeol

Fe wnaeth Dr Andy Hall, y Prif Arolygwr Niwclear cyntaf i ddal y swydd statudol hon, gyhoeddi ei benderfyniad i ymdeol o'r ONR ym mis Tachwedd 2015 a than ei ymdeoliad mae'n cymryd cyfnod o absenoldeb tosturiol oherwydd rhesymau personol. Mae Bwrdd yr ONR, â chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi penodi Dr Richard Savage fel Prif Arolygwr Niwclear Dros Dro, tra'n aros am broses i lenwi'r rôl ar sylfaen barhaol. O'r blaen roedd Richard yn Bennaeth y Rheoleidiwr Diogelwch Niwclear Amddiffyn cyn ymuno ag ONR yn ei rôl gyfredol fel Dirprwy Brif Arolygwr Niwclear.

### Penodi Prif Weithredwraig yr ONR

Penodwyd Adrienne Kelbie fel Prif Weithredwraig yr ONR. Ar hyn o bryd mae Adrienne yn Brif Weithredwraig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chyn hyn mae wedi cael gyrfa amrywiol gan gynnwys cyfnodau fel Dirprwy Brif Weithredwraig mewn awdurdod lleol ac fel Cyfarwyddwraig Gweithrediadau'n gyfrifol am gyllid cenedlaethol a rhyngwladol yn y Gronfa Loteri Fawr. Bydd Adrienne yn cychwyn y swydd gydag ONR ar 18 Ionawr 2016.

### Y cylchgrawn Regulation Matters [Materion Rheoleiddio]

Gellir cael cipolwg ar waith ONR fel rheoleidiwr annibynnol o'r diwydiant niwclear yn Regulation Matters. Mae'r cyhoeddiad ar-lein chwarterol hwn (<http://www.onr.org.uk/regulation-matters.htm>) yn adrodd ar y prif themau a datblygiadau ym mhob un o raglenni rheoleiddiol ONR ac yn darparu diweddariad ynghylch y newidiadau parhaol yn ONR. I weld y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, gallwch hefyd fynd i'r wefan a chofrestru ar gyfer ein e-fwletin: <http://www.onr.org.uk/index.htm>.

## CYSYLLTIADAU

Swyddfa dros Reoli Niwclear  
Redgrave Court  
Merton Road  
Bootle  
Glannau Mersey  
L20 7HS

gwefan: [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk)  
e-bost: [ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk](mailto:ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk)

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i adrodd am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015

Os dymunwch aildefnyddio'r wybodaeth hon ewch i [www.onr.org.uk/copyright.htm](http://www.onr.org.uk/copyright.htm) am fanylion.  
Cyhoeddwyd 10/15

*Ar gyfer dogfennau cyhoeddiedig, mae'r copi electronig ar y wefan ONR yn aros fel y fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copïo neu argraffu'n golygu nad yw'r ddogfen hon wedi'i rheoli.*